Codi'r Bar gyda'n Gilydd:

Adnodd i Artistiaid a Sefydliadau (Ionawr 2021)

Bydd y mwyafrif ohonom yn cytuno y dylai'r celfyddydau gweledol fod yn hygyrch i bawb a dylai cyfleoedd cyfartal fod yn hygyrch i artistiaid anabl. Prin y mae hyn yn digwydd. Mae artistiaid anabl yn profi nifer o rwystrau o hyd, boed hynny wrth gyrchu cyfleoedd/galwadau, mannau celfyddydau neu gyllid. Mae'r rhwystrau hyn yn aml yn cael eu creu heb ymwybod gan sefydliadau, y byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn siomedig iawn (rwy'n gobeithio) eu bod yn creu'r sefyllfa hon. Mae hyn fel arfer o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth am yr amrywiaeth eang o anghenion anabledd, neu drwy fod â meddwl caeedig i ffyrdd newydd o wneud pethau. Weithiau, mae esgeulustod amlwg o anghenion mynediad.

Cyfranogwyr y Prosiect…

Dyfeisiwr ac arweinydd y prosiect

Gaia Redgrave: Artist anabl niwro-amrywiol llawrydd, mentor a chynghorydd mewn niwroamrywiaeth yn y celfyddydau.

Artistiaid dethol Codi'r Bar gyda'n Gilydd

Anushiye Yarnell: Artist a choreograffwr llawrydd sy'n gweithio gyda dawns a symudiad.

Gina Biggs: Ymchwilydd, perfformiwr, gwneuthurwr theatr a chyfarwyddwr SheWolf.

Hazel Cardew: Artist llawrydd sy'n canolbwyntio ar wneud marciau ac estheteg finimalaidd fel math o gyfansoddi ac ysgrifennu sgorau.

Chris Tally Evans: Artist, cyfarwyddwr theatr, awdur, ac ymgyrchydd dros gydraddoldeb.

Mentoriaid

Chris Mooney-Brown: Cyd-sylfaenydd a Chyfarwyddwr y Cwmni, g39, Caerdydd

Mike Layward: Cyfarwyddwr Artistig Dash Arts

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

©Gaia Redgrave 2021
E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk

Roedd Codi’r Bar gyda’n Gilydd yn brosiect tri mis o hyd a ariannwyd gan Gronfa Sefydlogi’r Loteri Genedlaethol Cyngor Celfyddydau Cymru. Cafodd pob rhan ohono ei gyflwyno ar gyfer artistiaid yng Nghymru trwy fideogynadledda (Zoom), e-bost a WhatsApp. Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud yn sgil nifer o resymau: hygyrchedd ar gyfer artistiaid anabl gan na fyddai'n rhaid iddynt deithio i leoliad penodol; diogelwch o fewn cyfyngiadau'r llywodraeth yn ystod y pandemig COVID-19; ac oherwydd bod rhai cyfranogwyr yn fwy agored i niwed. Lleolwyd cyfranogwyr o fewn De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru.

Roedd Codi'r Bar gyda'n Gilydd yn ceisio deall yn fwy clir y problemau y mae artistiaid anabl yn eu hwynebu trwy gydweithio drwy brofiadau (artist anabl ac artist heb anabledd), sgwrsio a myfyrio. Roedd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys archwilio profiad a rhannu'r rhwystrau a wynebwyd, meddyliau a chysyniadau newydd ar sut a ble mae artistiaid anabl yn cydweddu â byd cyfredol y celfyddydau gweledol, ffyrdd amgen ac arloesol o gyfathrebu anghenion mynediad, a gwaith arbrofol newydd, gan gynnwys dwy ffilm fer newydd.

Darllediad Gwleidyddol Artistig gan Chris Tally Evans

©Gaia Redgrave 2021 E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk

Sgôr gan Hazel Cardew a Gina Biggs

Daeth artistiaid at y prosiect am ddau reswm: naill ai roeddent wedi ei chael hi'n anodd dro ar ôl tro i gyrchu cyfleoedd i artistiaid oherwydd eu hanabledd, a/neu roeddent am wella mynediad i bawb. O fewn cyfnod byr, yn ystod cyfarfod grŵp cyntaf Codi'r Bar gyda'n Gilydd, nododd carfan y celfyddydau 32 o rwystrau a gwahaniaethau yr oeddent wedi'u profi'n bersonol, a sawl gwaith yn aml. Darganfyddom yn gyflym iawn fod problem fawr yn wynebu artistiaid anabl a bod y celfyddydau gweledol yn bell o fod yn gyfartal i bawb.

Mae'r 32 sefyllfa a nodwyd fel a ganlyn…

1. Derbyn costau mynediad fel 'caredigrwydd' ond nid am eu hamser fel artist neu gael eu talu'n llai na'u cymheiriaid.
2. Bod yn bresennol ar brosiect gan ei fod yn rhoi llwybr haws i gyllid ar gyfer darparwr y prosiect.
3. Anallu i gael gafael ar gyllid oherwydd y weithdrefn ymgeisio.
4. Anallu i gael gafael ar gyllid oherwydd gofynion y cyllid.
5. Gwahaniaethu uniongyrchol wrth geisio cyrchu prosiectau a mannau.
6. Gwahaniaethu anuniongyrchol wrth geisio cyrchu prosiectau a mannau.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

©Gaia Redgrave 2021 E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk

7. Anwybodaeth am y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
8. Anhygyrchedd prosiectau, hyd yn oed pan ysgrifennwyd y galwadau yn benodol ar gyfer artist anabl.
9. Diffyg cydnabyddiaeth o anabledd yr artist a bod anabledd yn fwy na chadair olwyn.
10. Diffyg dealltwriaeth o niwroamrywiaeth.
11. Gwrthod anghenion mynediad yn llwyr.
12. Meddyliau caeedig a chlustiau caeedig.
13. Sefydliadau yn ddall i wirionedd o ran diffyg mynediad.
14. Sefydliadau yn defnyddio datganiad dal popeth o 'Byddwn yn gwneud popeth y gallwn', heb ategu'r honiad gyda'r hyn y gallant ei wneud i gynorthwyo mynediad neu'r hyn y maent yn barod i'w wneud. Mor aml, mae defnyddio'r datganiad yn golygu na fydd dim yn digwydd a bod diffyg dealltwriaeth.
15. Bregusrwydd wrth gyfleu anghenion mynediad.
16. Diffyg cyfle i gyfleu anghenion mynediad.
17. Bod yn bresennol mewn prosiectau / cyfleoedd gwaith lle na all yr artist anabl fynd i'r afael / gofalu am ei les corfforol, meddyliol a niwroamrywiol oherwydd disgwyliadau eraill, gan arwain at salwch.
18. Yr angen i guddio (cuddio anawsterau) neu i fod yn rhywun nad ydynt, gan achosi trallod meddwl.
19. Y disgwyliad i gadw'n ddigynnwrf a pharhau'n ddiamheuol.
20. Diffyg diwylliant gofal.
21. Heb gael eu clywed.
22. Heb gael eu gweld.
23. Ofn cynnig eu hunain oherwydd na allant gydymffurfio â disgwyliadau o ran yr hyn sy'n arferol.
24. Diffyg cymorth wrth wneud cais am gyfleoedd a chyfleoedd i wneud cais mewn ffordd sy'n fwy addas iddynt.
25. Teimlo na fyddant yn cael eu gwerthfawrogi mewn prosiect neu fod y cyfle yn cael ei gyflwyno yn y fath fodd fel eu bod yn 'gwybod' na fyddant yn gallu cael mynediad ato. Iaith gaeedig gan y darparwr yn yr alwad fel nad ydynt yn gwneud cais.
26. Euogrwydd ac embaras ynglŷn â methu â chyflwyno eu hunain yn 'broffesiynol' oherwydd eu bod yn teimlo'n sâl, mewn poen, yn emosiynol gan fod pethau'n ormod iddynt, ag angen gweithio o'r gwely ac ati.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

©Gaia Redgrave 2021 E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk

27. Anhawster gyda gweithredu goruchwyliol a diffyg cefnogaeth ar gyfer hyn neu gydnabyddiaeth ohono.
28. Anhawster artistiaid wrth egluro anghenion mynediad oherwydd eu diffyg dealltwriaeth a'u gwybodaeth o'r hyn sydd ar gael neu y gellir ei wneud.
29. Bwlch rhwng sefydliadau'r celfyddydau ac artistiaid anabl. Sefyllfaoedd nhw a ni.
30. Ystyrir artistiaid anabl yn hunanfaldodus oherwydd eu bod yn emosiynol o ganlyniad i anawsterau sy'n gysylltiedig ag anabledd.
31. Yr un problemau sy'n codi dro ar ôl tro ynghylch mynediad a dim ond ychydig o newid mewn 20 mlynedd.
32. Diffyg ymwybyddiaeth ynghylch lle maent yn sefyll fel artist anabl.

Yn anffodus, ni chafodd yr artistiaid dan sylw sioc wrth glywed y straeon a rannwyd am wahaniaethu eang ym maes y celfyddydau. Mae'n hen bryd i hyn newid ac, yn bendant, cydnabuwyd bod rhai newidiadau wedi'u gwneud. Fodd bynnag, rydym dal yn bell i ffwrdd o gyrraedd sefyllfa lle mae artistiaid anabl yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion ac am eu gwaith ac nad oes disgwyl iddynt gyflawni ar draul eu lles corfforol, meddyliol neu niwroamrywiol.
Y bwriad yw bod Codi'r Bar yn parhau fel prosiect ar ffurf sy'n datblygu'n barhaus i ymchwilio i'r materion hyn a mynd i'r afael â hwy.

Bwriadau ar gyfer y cam nesaf…

- Rydym yn ceisio cyllid ar hyn o bryd ar gyfer fersiwn estynedig o Codi'r Bar gyda'n Gilydd i'n galluogi i fynd i'r afael â rhai o'r materion y mae artistiaid anabl yn dod ar eu traws mewn perthynas â mynediad, gan ganolbwyntio ar ddiwylliant gofal.
- Rydym yn bwriadu gweithio gyda sefydliadau i ddeall eu profiadau wrth weithio gydag artistiaid anabl a darparu cymorth mynediad.
- Ymchwilio'n ddyfnach i'r heriau sy'n wynebu artistiaid anabl a sefydliadau'r celfyddydau gweledol ar raddfa ehangach a chynnig strwythur gweithio ar gyfer diwylliant gofal creadigol sy'n gynaliadwy, gan alluogi'r artist a'r sefydliad i ddod ynghyd fel cydraddolion. Yn y pen draw, y bwriad yw creu amgylchedd yn y celfyddydau gweledol sy'n arwain at ddiwylliant gofal a gwerth i bawb dan sylw.

©Gaia Redgrave 2021 E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk

Gair olaf…

Mae'n amser bod yn feiddgar, bod yn wahanol, ac arwain trwy enghraifft.
Bod yn agored, yn onest ac yn fodlon dysgu.
Casglu'r wybodaeth a gweithredu ar y wybodaeth honno.
Bod yn rhagweithiol wrth roi cyfle i siarad am fynediad creadigol.
Creu'r gallu i newid.

Ein nod yw edrych yn ôl ar y newidiadau yr ydym wedi'u gwneud ymhen ugain mlynedd a gofyn beth sy'n nesaf yn hytrach na pham yr ydym yn gofyn yr un cwestiynau ar ôl 40 mlynedd.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd mewn print bras, fel fersiwn sain MP3, ac yn Saesneg.
Os oes ei hangen arnoch mewn ffurf wahanol, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os ydych yn sefydliad neu gyllidwr sy'n dymuno bod yn rhan o brosiect Codi'r Bar, cysylltwch â Gaia yn uniongyrchol: contact@gaiaredgrave.co.uk

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

©Gaia Redgrave 2021 E-bost: contact@gaiaredgrave.co.uk www.gaiaredgrave.co.uk